**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A55 A'R A494 (CYFFORDD 34 (CYFNEWIDFA EWLOE) I GYFFORDD 36 (CYFNEWIDFA WARREN), SIR Y FFLINT) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2026**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe) a Chyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A55 a'r A494 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno;

ii. gwahardd cerbydau sy'n lletach na 3.2 metr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A55 a'r A494 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Ar ddyddiadau ac amseroedd a bennwyd ymlaen llaw, cyfarwyddir unrhyw gerbydau o'r fath i barcio mewn cilfannau dynodedig hyd nes y gellir eu hebrwng drwy safle'r gwaith;

iii. gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A55 a'r A494 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Y llwybr arall o Ewloe yw mynd ar y B5125 tua'r de-ddwyrain i Frychdyn;

iv. gosod terfynau cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfynau cyflymder is yn weithredol yn ysbeidiol yn ystod cyfnodau'r gwaith ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Fel rhan o'r gwaith caiff cerbytffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael cysylltiedig eu cau yn gyfan gwbl dros nos, caiff lonydd eu cau yn ystod y dydd gyda therfynau cyflymder is a chaiff darnau o'r cerbytffyrdd eu cau am 24 awr. Codir arwyddion priodol ynghylch hyn oll.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 22 Chwefror 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn weithredol dros nos (18:00 o'r gloch – 06:00 o'r gloch) o ddydd Llun i ddydd Gwener, ynghyd â chau darnau o'r cerbytffyrdd am 24 awr ar benwythnosau, o 22 Chwefror 2026 hyd 23 Mawrth 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny,

**THE A55 & A494 TRUNK ROADS (JUNCTION 34 (EWLOE INTERCHANGE) TO JUNCTION 36 (WARREN INTERCHANGE), FLINTSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2026**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 34 (Ewloe Interchange) and Junction 36 (Warren Interchange), Flintshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 and A494 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is described therein;

ii. prohibit vehicles over 3.2 metres wide from proceeding on the lengths of the A55 and A494 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. On predetermined dates and times, any such vehicles will be directed to park in designated lay-bys until such time that they can be escorted through the works site;

iii. prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 and A494 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route from Ewloe is via the south-eastbound B5125 to Broughton;

iv. impose 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limits on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 2 to this Notice. The reduced speed limits will operate intermittently during the work periods and no overtaking will be permitted at these times.

The works will require a range of full overnight carriageway and associated slip road closures, daytime lane closures with reduced speed limits and 24-hour closures, all of which will be signed accordingly.

The Order comes into force on 22 February 2026. The temporary prohibitions and restrictions are expected to operate overnight (18:00 – 06:00 hours) Monday to Friday, along with 24-hour closures on weekends, from 22 February 2026 until 23 March 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a

bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd traffig dros dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 (Ewloe) hyd at ganolbwynt Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 33B.

Y darn o 'ddolen wrthglocwedd' tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 34.

Y darnau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35.

Y darn o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 Parc Dewi Sant.

Y darn o'r ffordd gyswllt rhwng ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 Parc Dewi Sant a ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 â'r A55 tua'r dwyrain wrth Gyffordd 34.

<u>Y llwybr arall</u>

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain y bydd cau'r darnau uchod yn effeithio arnynt yw mynd ar yr A494 tua'r gogledd-ddwyrain o Gyfnewidfa Ewloe (Cyffordd 34), yr A5117 tua'r

maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary prohibition of traffic**

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Junction 34 (Ewloe) to the centre-point of Junction 36 (Warren Interchange).

The length of the A55 eastbound entry slip road at Junction 33B.

The length of the A55 eastbound 'anti-clockwise loop' at Junction 34.

The lengths of the eastbound exit and entry slip roads at Junction 35.

The length of the eastbound exit slip road at Junction 36.

The length of A494 St Davids Park westbound entry slip road.

The length of the link road between the A494 St Davids Park westbound entry slip road and the A494 westbound slip road to the eastbound A55 at Junction 34.

The length of the A494 westbound entry slip road to the eastbound A55 at Junction 34.

<u>Alternative route</u>

The alternative route for eastbound traffic affected by the above closures is via the north-eastbound A494 from Ewloe Interchange (Junction 34), north-eastbound A5117 to Backford Cross Roundabout and

gogledd-ddwyrain hyd at Gylchfan Backford Cross a'r A41 tua'r de-ddwyrain i ymuno â'r A55 tua'r gorllewin wrth Gyffordd 39a a mynd ymlaen hyd at Gyffordd 38 (Cylchfan Cyfnewidfa Wrecsam) a thrwy hynny ymadael i ymuno â'r A55 tua'r dwyrain.

south-eastbound A41 to join the westbound A55 at Junction 39a and proceed to Junction 38 (Wrexham Interchange Roundabout) thereby exiting to join the eastbound A55.

## ATODLEN 2
### Terfynau cyflymder 30 mya, 40 mya a/neu 50 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Pinfold Lane hyd at ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 35.

## SCHEDULE 2
### Temporary 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed limits and no overtaking

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the centre-point of Pinfold Lane to the centre-point of the over-bridge at Junction 35.